

Rheoli Cyddwysedd a Llwydni



Cynnwys

1. Beth yw Cyddwysedd (Condensation)?
2. Beth sy'n Achosi Cyddwysedd?
3. Lleithder o'r Cartref
4. Lleithder sy'n Cael ei Greu yn y Cartref
5. Wynebau oer yn Eich Cartref
6. Tymheredd Eich Cartref
7. Pwyntiau Allweddol i'w Cofio

Cynhyrchwyd gan Ganolfan Cyngor Effeithlonrwydd Egni Leeds

MAE'R LLYFRYN YMA'N CYNNWYS GWYBODAETH BWYSIG AM SUT I LEIHU PROBLEMAU YN EICH CARTREF O GANLYNIAD I GYDDWYSEDD (CONDENSATION) A LLWYDNI.

Os ydych yn credu bod y llyfryn yn anodd i'w ddeall, gofynnwch i ffrind, aelod o'r teulu neu rywun rydych yn ei adnabod i'w egluro i chi. Os nad ydych yn adnabod rhywun sy'n gallu gwneud hyn i chi, ffoniwch y Ganolfan Gyngor ar Ynni Effeithiol ar RHADFFON 0800 512 012 i sôn wrthynt am eich sefyllfa a byddant yn eich helpu i gael cyfieithiad o'r llyfryn.

Rhifau Cyswllt Defnyddiol

0800 512 012	Y Ganolfan Gyngor ar Ynni Effeithiol
0800 111 999	Nwy (gollyngiadau)
0800 375 675	Trydan (toriadau mewn pŵer)
0845 906 0708	Energywatch Nwy a Thyrdan (cwynion gan gwsmeriaid)
0845 915 1515	Taliadau Tanwydd yn y Gaeaf
0800 009 966	Gofal Henoed
0808 800 6565	Help i Hen Bobl
0845 130 9177	Sefydliad Bywyd Pobl Anabl
0800 882 200	Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (i bobl ag anableddau a'u gofalwyr)

Os oes angen cyngor ar ynni arnoch ac os nad ydych yn gwybod â phwy i gysylltu, ffoniwch y Ganolfan Gyngor ar Ynni Effeithiol ar :- 0800 512 012. Byddant yn gwneud eu gorau i'ch rhoi mewn cysylltiad â'r sefydliad gorau i gwrdd â'ch anghenion chi.

1. Beth yw Cyddwysedd?

Mae rhywfaint o leithder yn yr awyr bob amser, hyd yn oed os na allwch ei weld. Os yw aer yn troi'n oer, nid yw'n gallu dal yr holl leithder sy'n cael eu greu gan weithgareddau bob dydd ac mae rhywfaint o'r lleithder yma'n ymddangos fel diferion bach iawn o' ddwr, ac mae'n fwyaf amlwg ar ffenestri ar fore oer. Cyddwysedd yw hyn. Gallwch ei weld hefyd ar y drych pan fyddwch yn cael bath neu gwadod, ac ar wynebau oer fel teils neu waliau oer.

Mae cyddwysedd yn digwydd mewn tywydd oer, hyd yn oed os yw'r tywydd yn sych. Dyw e ddim yn gadael 'marc llanw' ar waliau o amgylch ei ochrau. Os oes 'marc llanw', gallai fod rheswm arall am y tamprwydd yma, fel dwf yn gollwng i mewn i'ch cartref o nam yn y peipiau, teiliau to rhydd neu damprwydd codi.

Edrychwch am gyddwysedd yn eich cartref. Gall ymddangos ar ffenestri neu wrth eu hymyl, mewn corneli a mewn neu'r tu ôl i wardrobau a chypyrddau. Mae cyddwysedd yn ffurfio ar wynebau oer ac mewn lleoedd lle nad oes llawer o aer yn symud.

Problemau sy'n gallu cael eu hachosi gan ormod o gyddwysedd

Gall tamprwydd sy'n cael ei achosi gan ormod o gyddwysedd arwain at llwydni (mould) ar waliau a dodrefn, a llwydni (mildew) ar ddillad a deunyddiau eraill a bydd fframiau ffenestri pren yn pydru. Hefyd, mae amodau tamp a llaith yn amgylchedd lle y gall gwiddon llwch (dust mites) gynyddu'n hawdd. Gall presenoldeb llwydni a gwiddon llwch wneud anhwylderau anadlu fel asthma a bronchitis yn waeth.

Y camau cyntaf yn erbyn cyddwysedd

Bydd angen i chi gymryd y camau iawn i ddelio â chyddwysedd, ond yn y cyfamser mae rhai pethau syml y dylech eu gwneud ar unwaith.

Sychwch eich ffenestri a silliau'r ffenestr bob bore, yn ogystal ag wynebau yn y gegin neu'r ystafell ymolchi sydd wedi mynd yn wlyb. Gwasgwch y clwtyn yn sych yn hytrach na'i sychu ar wresogydd.

Y camau cyntaf yn erbyn tyfiant llwydni

Yn gyntaf triniwch y llwydni sydd yn eich cartref yn barod, yna deliwch â phroblem sylfaenol y cyddwysedd i atal y llwydni rhag ailymddangos.

I ladd a chael gwared ar llwydni, gwlychwch neu chwistrellwch y waliau a fframiau'r ffenestri â ffyngladdwr sy'n arddangos 'rhif cymeradwyo' Cyngor Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a gwnewch yn siwr eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau diogelwch. Mae'r ffyngladdwyr hyn ar gael yn aml mewn uwchfarchnadoedd lleol. Sych-lanheuwch dillad â llwydni arnynt, a defnyddiwch siampw ar garpedi. Peidiwch â cheisio tynnu'r llwydni drwy ddefnyddio brws neu sugnwr llŵch.

Ar ôl y driniaeth, ailaddurnwch gan ddefnyddio paent lladd ffwng o safon uchel a phast papur wal sy'n gwrthsefyll ac yn lladd ffwng i helpu atal y llwydni rhag dod yn ôl. Bydd effaith y paent lladd ffwng neu wrth-cyddwysedd yn cael ei dinistrio os defnyddiwch baent neu bapur wal cyffredin.

Ond cofiwch: yr unig wellhad parhaol am llwydni difrifol yw cael gwared ar y tamprwydd



2. Beth sy'n Achosi Cyddwysedd?

Mae pedwar prif ffactor sy'n achosi cyddwysedd:-

- GORMOD O LEITHDER YN CAEL EI GREU YN EICH CARTREF
- DIM DIGON O AWYRU
- WYNEBAU OER
- TYMHEREDD EICH CARTREF

Mae angen i chi edrych ar bob un o'r ffactorau hyn i wella problem cyddwysedd.

3. Lleithder o'r Cartref

Bydd ein gweithgareddau bob dydd yn ychwanegu lleithder i'r aer y tu mewn i'n cartrefi. Mae hyd yn oed ein hanadl yn ychwanegu rhywfaint o leithder (ydych chi'n cofio bod anadlu ar ffenestri a drychau oer yn eu cymylu?). Mae un person yn cysgu'n ychwanegu hanner pint o ddwr i'r awyr drŵs nos a dwywaith hynny yn ystod y dydd.

I roi syniad i chi o faint o ddwr ychwanegol y gallai hyn fod mewn diwrnod, dyma rai enghreifftiau:-

2 o bobl gartref am 16 o oriau
3 pint



Bath neu gawod
2 pint



Sychu dillad yn y ty[^]
9 pint



Coginio a defnyddio tecell
6 pint



Golchi llestri
2 pint



Gwresogydd nwy potel (8 awr o ddefnydd)
4 pint



Cyfanswm y lleithder ychwanegol mewn un diwrnod = 26 o beintiau neu 14.8 o litrau

Rhowch eich dillad gwlyb i sychu y tu allan os yw'n bosibl, neu hongiwch nhw yn yr ystafell ymolchi â'r drws ynghau a ffenestr yn agored ychydig bach neu defnyddiwch ffan wagio. Peidiwch â chael eich temtio i'w rhoi nhw ar wresogyddion neu o flaen gwresogydd pelydrol (radiant).





Os byddwch yn defnyddio taflwr sychu (tumble drier), gwnewch yn siŵr ei fod yn gollwng awyr i'r tu allan neu mai math newydd sy'n cyddwysu ydyw.

Coginiwch â chaeadau sosbannau wedi eu gosod bob amser, a throwch y gwres i lawr unwaith y bydd y dŵr wedi berwi. Defnyddiwch y lleiafswm o ddŵr yn unig i goginio llysiau.



Pan fyddwch yn llenwi'r bath, rhedwch y dŵr oer gyntaf a wedyn y dŵr poeth – bydd hyn yn lleihau'r ager sy'n arwain at gyddwysedd o 90%.

Ceiswch osgoi defnyddio gwresogyddion nwy potel; maen nhw'n creu tua 8 peint o leithder o un sylindr nwy arferol. (Efallai na fydd rhai Cytundebau Tenantiaud yn caniatáu defnyddio'r math yma o wresogydd).

Peidiwch â defnyddio'ch cwcer nwy i wresogi'r gegin gan ei fod yn creu leithder pan fydd yn llosgi nwy. (Efallai y sylwch fod eich ffenestri yn cymylu).



4. Awyru'r Cartref


Gall awyru (ventilation) helpu lleihau cyddwysedd drwy dynnu aer llai o'ch cartref a rhoi aer sychach o'r tu allan yn ei le

Helpwch i leihau cyddwysedd sydd wedi cronni dros nos drwy 'groes-awyru' eich cartref – agor un ffenestr i un bwlch i lawr y grisiau a ffenestr fechan i fyny'r grisiau. (Dylen nhw fod ar ochrau cyferbyn y tŷ, neu'n gyferbyn ar letraws os ydych yn byw mewn fflat). Ar yr un pryd, agorwch ddrysau'r ystafelloedd mewnol, a bydd hyn yn gadael i aer sychach gylchredeg drwy'ch cartref. Dylech groesawyru am tua 30 munud bob dydd.



Nodwch: Gwnewch yn siŵr na fydd ffenestri agoed yn creu problem diogelwch – cofiwch eu cau nhw pan fyddwch yn mynd allan.

Awyrwch y gegin pan fyddwch yn coginio, golchi llestri neu'n golchi dillad â llaw. Mae ffenestr sy'n agored ychydig bach gystal â ffenestr sy'n llydan agored. Os oes un gennyich, defnyddiwch y teclyn gwagio aer ar eich cwcer neu ffan wagio.





Cadwch ddrysau'r gegin a'r ystafell ymolchi ar gau i rwystru lleithder rhag dianc i weddill y tŷ.

Awyrrwch y gegin a'r ystafell ymolchi am tua 20 munud ar ôl eu defnyddio drwy agor ffenestr uchel fechan. Defnyddiwch ffan wagio os yw'n bosibl – maen nhw'n rhad i'w rhedeg ac yn effeithiol dros ben.

Awyrrwch eich ystafell wely drwy adael ffenestr yn agored ychydig bach yn ystod y nos, neu defnyddiwch awyryddion diferu (trickle ventilators). (Unwaith eto, cofiwch am ddiogelwch eich cartref).



I leihau'r risg o lwydni ar ddillad ac eitemau eraill sydd wedi eu storio, gadewch i aer gylchreddeg drwyddynt drwy dynnu cefnau 'ffug' mewn wardrobau neu drwy ddrilio tyllau anadlu ynddynt. Gallwch roi dodrefn ar flociau i adael aer gylchreddeg oddi tanynt. Cadwch fwlcch bach rhwng darnau mawr o ddodrefn a'r waliau, ac os yw'n bosibl rhwng wardrobau a dodrefn yn erbyn waliau mewnol. Tynnwch silffoedd i ffwrdd o gefnau wardrobau a chypyrddau. Peidiwch byth â gorlenwi wardrobau a chypyrddau, gan fod hyn yn cyfyngu ar gylchrediad aer.



5. Wynebau oer yn Eich Cartref

Mae cyddwysedd yn ffurfio'n haws ar wynebau oer yn y cartref, er enghraifft, waliau a'r nenfwd. Yn aml, gellir gwneud y wynebau hyn yn gynhesach drwy wella'r insiwleiddio ac atal drafftiau.

Bydd insiwleiddio ac atal drafftiau yn helpu cadw'r tŷ cyfan yn gynhesach hefyd a bydd eich biliau tanwydd yn llai. Pan fydd y tŷ cyfan yn gynhesach, bydd cyddwysedd yn llai tebygol.

Insiwleiddio'r llofft a'r waliau yw'r mathau mwyaf effeithiol o insiwleiddio.

Os byddwch yn gosod unrhyw beth i atal drafftiau, edrychwch ar y cyfarwyddiadau canlynol.

Peidiwch â chau drafftiau o ystafelloedd â phroblem cyddwysedd, neu lle y mae gwresogydd neu gwcer sy'n llosgi nwy neu danwydd solet.

Peidiwch â blocio awyryddion neu friciau awyr parhaol a gafodd eu gosod ar gyfer gwresogyddion.

Peidiwch â gosod pethau i atal drafftiau ar ffenestri yn yr ystafell ymolchi neu'r gegin.

Os bydd rheswm i greu y gallai'ch cartref elwa o wella'r insiwleiddio yn y llofft neu'r waliau, cysylltwch â'ch landlord i ofyn am y posibilrwydd o welliant o'r fath.



6. Tymheredd Eich Cartref

Mae aer cynnes yn dal mwy o leithder nag aer oerach sy'n debygol o adael diferion o gyddwysedd yn eich cartref. Mae aer fel sbwng; mwya cynnes yw e, mwya i gyd o leithder y bydd yn ei ddal. Mae gwresogi un ystafell i lefel uchel a gadael ystafelloedd eraill yn oer yn gwneud y cyddwysedd yn waeth yn yr ystafelloedd heb wres. Mae hyn yn golygu ei bod yn well i gael gwres ar lefel ganolig neu isel drwy'r ty i gyd.

Bydd cadw'r gwres yn isel drwy'r dydd mewn tywydd oer yn helpu rheoli'r cyddwysedd, ond edrychwch ar eich mesuryddion yn rheolaidd i weld faint y mae'n ei gostio i chi.

Os oes gennych system wres fel trydan dan-y-llawr ond yn peni am ei defnyddio gan eich bod wedi clywed ei bod yn ddrud i'w rhedeg, cysylltwch â'r Ganolfan Gyngor ar Ynni Effeithiol (EEAC) am lyfryn cyngor ar sut i reoli'ch system ar RHADFFON 0800 512 012. Mae'n bosibl y gwelwch ei bod yn costio llai i'w rhedeg nag roeddech yn ei ddisgwyl neu wedi ffeindio yn y gorfennol.

Os nad oes gennych wres ym mhob ystafell, gallech gadw drysau'r ystafelloedd heb wres ar agor i adael ychydig o'r gwres i mewn iddynt.

I ychwanegu mwy o wres i ystafelloedd heb unrhyw fath o wresogi wedi ei osod ynddynt, mae'n well defnyddio gwresogyddion trydan, er enghraifft gwresogyddion llawn olew neu wresogyddion panel, ar lefel isel. Cofiwch, peidiwch â defnyddio gwresogyddion nwy potel mewn cartrefi lle y mae problem cyddwysedd gan eu bod yn creu llawer o leithder. Yn groes i'r gred, mae'n rhatach i wresogi ystafell â thrydan oriau brig na thrwy ddefnyddio gwresogyddion nwy potel.

Os oes gennych chi rewgist, mae'n syniad da i'w rhoi yn rhywle lle y mae cyddwysedd, oherwydd dylai'r gwres o'r modur helpu cadw cyddwysedd draw.



Gofalwch i beidio 'gorawyru' eich cartref pan fydd hi'n oer, gan y bydd hyn yn achosi'r tymheredd i ddisgyn ac yn gwneud cyddwysedd yn fwy tebygol. Bydd yn cynyddu costiau eich gwres hefyd.

Os nad ydych yn credu bod y gwresogyddion a osodwyd yn eich cartref yn gallu rhoi digon o wres i gadw cyddwysedd draw, cysylltwch â'ch landlord i ofyn am y posibilrwydd o welliant i'r gwres yn eich ty.

Os oes gennych'anhwylder meddygol difrifol ac oes angen mwy o wres arnoch, efallai yr hoffech gysylltu â'ch landlord i'w holi am y drefn i gael cyfeiriad meddygol ar gyfer gwelliant i'r gwres yn eich ty.

7. I Reoli Cyddwysedd Cofiwch Y PWYNTIAU ALLWEDDOL

CRÛWCH LAI O LEITHDER

Gweler y camau i'w cymryd yn Adran 3

GWELLWCH YR AWYRU

Gweler y camau i'w cymryd yn Adran 4

LLEIHEWCH Y NIFER O WYNEBAU OER YN EICH CARTREF

Gweler y camau i'w cymryd yn Adran 5

CADWCH DIGON O DYMHEREDD

Gweler y camau i'w cymryd yn Adran 6

I weld beth y gallwch ei wneud eich hun yn gymharol rhad, ffoniwch y Ganolfan Gyngor ar Ynni Effeithiol i gael copi o. "Mae gwastraffu arian yn drosedd - canllaw ar gyfer arbed arian ac egni yn y cartref gan Alvin Hall "

Am wybodaeth ar sut i gynnal systemau gwresogi yn economaidd, cysylltwch â RHADFFÔN 0800 512 012 neu bwrwch olwg ar www.saveenergy.co.uk